## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

### Yr Is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 14 Ionawr 2004

Cafodd y rheoliadau arfaethedig eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle y disgwylir i'r aelodau roi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymholiadau sydd ganddynt neu am unrhyw ddiwygiadau y maent am eu gwneud i'r fersiwn drafft.

**Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004**

Cyflwynwyd tri gwelliant, ond cafodd dau eu tynnu'n ôl wedyn.

**Gwelliant 1: Kirsty Williams, y Democratiaid Rhyddfrydol**

**Diwygio'r Prif Reoliadau – Terfynau Cyfalaf**

**Rheoliad 2(2):** Dileu '£20,500' a rhoi '£60,000' yn ei le.

Cafodd y gwelliant ei wneud yn unol ag argymhellion y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hirdymor ar gyfer yr Henoed, a'r bwriad oedd ceisio gwneud iawn am rai o'r agweddau ar ofal personol lle y gwahaniaethir yn erbyn rhai drwy godi'r terfynau cyfalaf. Roedd cost gofal yn golygu bod gan bobl amheuon ynghylch symud aelod o'u teulu o'r sector acíwt. Teimlid nad oedd pawb yn cael eu trin yn gyfartal o dan y system, gan fod rhai yn cael gofal di-dâl os oeddent yn dioddef o anhwylderau meddygol penodol, ac eraill a oedd wedi cynilo i brynu'u cartrefi'u hunain yn cael eu cosbi drwy orfod gwerthu'r cartrefi hynny er mwyn talu am y gofal a gaent.

Nid oedd y Gweinidog yn barod i dderbyn y gwelliant gan ei fod yn cynnig y dylai'r terfyn cyfalaf uwch fod £40,000 yn fwy. Ni fyddai'n eithrio mwy o bobl rhag talu am eu gofal na'r rheoliadau a gyflwynwyd, ond byddai'n ymestyn yn sylweddol yr ystod y mae'r "tariff" (yr incwm tybiedig o £1 ar gyfer pob £250 o gyfalaf) yn gymwys iddo. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio tua £20m i'r awdurdodau lleol ac y byddai'n rhaid dod o hyd i arian o raglenni eraill y Cynulliad er mwyn talu'r gost ychwanegol honno.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 1. Pleidleisiodd pum aelod o blaid y gwelliant, a phump yn ei erbyn. Ni ataliodd neb eu pleidlais.

Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw, yn unol â Chanllawiau'r Llywydd ar Gynigion a'r Modd yr Ymdrinnir â Busnes Pwyllgorau (Pleidlais Fwrw), a phleidleisiodd yn erbyn y gwelliant.

***Gwrthodwyd y gwelliant.***

**Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004**

Nid oedd unrhyw welliannau nac unrhyw bwyntiau er eglurhad wedi'u cyflwyno, felly, ni thrafodwyd y rheoliadau gan y Pwyllgor.

**Cartrefi Gofal Bach ar gyfer Pobl Hyn - y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor ei bod yn bwriadu llacio naw o'r safonau hyn. Nid oedd unrhyw welliannau nac unrhyw bwyntiau er eglurhad wedi'u cyflwyno, felly, ni thrafodwyd y rheoliadau gan y Pwyllgor.

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru)**

Nid oedd unrhyw welliannau nac unrhyw bwyntiau er eglurhad wedi'u cyflwyno, felly, ni thrafodwyd y rheoliadau gan y Pwyllgor.

**Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned**

Nid oedd unrhyw welliannau nac unrhyw bwyntiau er eglurhad wedi'u cyflwyno, felly, ni thrafodwyd y rheoliadau gan y Pwyllgor.

**David Melding AC**
**Cadeirydd**